



Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost® Coleg y Brifysgol
Tŷ Fulton, Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PP**

Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

Rwy'n ysgrifennu atoch i gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynllun i symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i Costcutter, Tŷ Fulton, Parc Singleton Abertawe, SA2 8PP, lle caiff ei rhedeg fel un o ganghennau lleol ffasiwn newydd Swyddfa'r Post.

Cawsom 74 o ymatebion unigol gan gwsmeriaid yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol. Yn bennaf, roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar brysurdeb siop Costcutter, faint o le sydd ar gael ac anhrefn posibl y tu mewn yn dilyn y newid.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, mae Swyddfa'r Post Cyf. yn cyfarfod â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr- y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon - er mwyn adolygu'r ymatebion a gwneud yn siŵr fod yr holl sylwadau perthnasol yn cael eu hystyried. Bu'r holl ymateb a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid yn well a chafodd ei ystyried wrth i ni wneud penderfyniad terfynol ynghylch y gangen newydd.

Yn gyntaf, hoffwn ymddiheuro am wybodaeth anghywir ynglŷn â'n cynllun a ddywedodd i ddechrau fod parcio am ddim ar gampws y Brifysgol. Gallaf gadarnhau fod yna barcio talu ac arddangos, a gallaf gadarnhau hefyd y gosodwyd deunydd ymgynghori wedi'i ddiwygio i gynnwys yr wybodaeth gywir am barcio, yn y gangen a bod hyn wedi cael ei ystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad.

Rydym yn deall yn iawn y gall pobl amau newid ac mae'r adborth a gawsom yn dangos pa mor bwysig yw'r Swyddfa Bost i'r gymuned leol. Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi eu barn i ni.

Rydym yn sylweddoli fod y Swyddfa Bost yn chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl, yn enwedig y bobl hŷn a phobl anabl, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. Mae'r mynediad yn Costcutter yn wastad gyda drws llydan wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd yr adeilad newydd yn cael ei adnewyddu er mwyn ei gwneud yn haws i gwsmeriaid symud o gwmpas. Bydd y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i'r Swyddfa Bost leol ffasiwn-newydd weithredu ochr yn ochr â'r siop. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r gweithredydd newydd wrth ddylunio tu mewn yr adeilad i wneud yn siŵr ei fod yn ddirwystr, bod y llwybrau'n cael eu cadw'n glir a bod digon o le i gadair olwyn symud o gwmpas yn rhwydd wrth i gwsmeriaid gyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post.

Er bod y fformat lleol yn ffordd wahanol o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post, nid yw mewn unrhyw fodd yn amharu ar y gwasanaeth proffesiynol rydym yn ei ddarparu yn ein holl ganghennau. Bydd y staff yn cael eu hyfforddi'n llawn ynglŷn â thrafodion Swyddfa'r Post a bydd digon o staff ar gael i wasanaethu cwsmeriaid. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos â'n gweithredydd newydd i wneud yn siŵr fod digon o breifatrwydd ar gael i gwsmeriaid Swyddfa'r Post a bod y staff yn llwyr ymwybodol o'r angen i barchu cyfrinachedd cwsmeriaid. Er enghraifft, byddwn yn trafod materion fel cynllun y ciw a gofyn i gwsmeriaid aros i ffwrdd o'r cownter wrth aros eu tro am wasanaeth. O ran diogelwch, hefyd - yr un modd ag mewn unrhyw gangen arall yn ein rhwydwaith - byddai canllawiau a chamau diogelwch ar waith er mwyn diogelu cwsmeriaid, staff a'r arian a stoc sydd dan ofal y gweithredydd.

Bydd y Swyddfa Bost leol ffasiwn newydd yn cael ei rhedeg o fan gwasanaeth Swyddfa'r Post ar gownter y siop, lle bydd dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael i gwsmeriaid ochr yn ochr ag eitemau'r siop. Mae trafodion Swyddfa'r Post i fod yn gyflym ac effeithlon fel bod cwsmeriaid yn cael gwasanaeth effeithlon a chyflym heb orfod aros eu tro am yn hir. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau y bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd yn y gangen newydd. Gall cwsmeriaid gael yr ystod lawn o wasanaethau Swyddfa'r Post yn Swyddfa Bost Sgeti, ac mae modd cyrraedd y gangen honno trwy wasanaeth bus uniongyrchol.

Bydd y newid hefyd yn golygu hefyd y bydd oriau'r Swyddfa Bost yr un fath ag oriau'r siop. Felly, bydd cwsmeriaid yn elwa ar oriau agor llawer hirach, gan gynnwys penwythnosau ac oriau agor estynedig drwy gydol yr wythnos. Bydd hyn yn golygu y gall cwsmeriaid ddefnyddio ein gwasanaethau saith diwrnod yr wythnos ar adegau a fydd yn fwy cyfleus iddyn, heb orfod aros mor hir am wasanaeth a heb unrhyw anhrefn. Mae manylion llawn am y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn, ynghyd â rhestr o'r cynhyrchion a gwasanaethau a fydd ar gael.

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'n cynllun gwreiddiol, yr ymateb a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r effaith ar gwsmeriaid y Swyddfa Bost a'r gymuned ehangach. Wedi cael golwg hefyd ar sut gall cerddwyr a cherbydau gyrraedd y safle newydd, rwy'n dal yn fodlon fod y gangen newydd mewn lleoliad cyfleus ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn dal i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac, ar yr un pryd, yn help i roi dyfodol hirdymor cynaliadwy i wasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Mae'r gangen ar gau er dydd Llun 10 Ebrill 2017. Bydd y gangen newydd yn agor yn Costcutter, Fulton House am 13:00 ddydd Llun 4 Medi 2017. Os bydd unrhyw newidiadau annisgwyl i'r amserlen, bydd posteri'n cael eu harddangos yn y gangen newydd er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: 257642

Mae'r newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith, yn ôl yr hyn a gytunwyd â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr. Mae copi llawn o'r Cod Ymarfer ar gael trwy fynd i'n gwefan yn www.postofficeviews.co.uk neu gallwch gael copi wrth gysylltu â'r cyfeiriad ar ddiwedd y llythyr.

Diolch i chi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir



Suzanne Richardson
Rheolwraig Rhwydwaith Rhanbarthol

Sut i gysylltu â ni:

-  postofficeviews.co.uk
-  comments@postoffice.co.uk
-  Llinell Gymorth: 03457 22 33 44
Ffôn testun: 03457 22 33 55
-  FREEPOST Your Comments

Sylwch taw hwn yw'r cyfeiriad llawn ac nad oes angen rhagor o fanylion.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar-lein. I'w gweld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa app.



I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Coleg y Brifysgol															
Cyfeiriad	Costcutter Tŷ Fulton Parc Singleton Abertawe SA2 8PP														
Oriau agor	<table border="1"> <tbody> <tr> <td>Llun</td> <td>08:00 – 20:00</td> </tr> <tr> <td>Mawrth</td> <td>08:00 – 20:00</td> </tr> <tr> <td>Mercher</td> <td>08:00 – 20:00</td> </tr> <tr> <td>Iau</td> <td>08:00 – 20:00</td> </tr> <tr> <td>Gwener</td> <td>08:00 – 20:00</td> </tr> <tr> <td>Sadwrn</td> <td>09:00 – 22:00</td> </tr> <tr> <td>Sul</td> <td>09:00 – 22:00</td> </tr> </tbody> </table>	Llun	08:00 – 20:00	Mawrth	08:00 – 20:00	Mercher	08:00 – 20:00	Iau	08:00 – 20:00	Gwener	08:00 – 20:00	Sadwrn	09:00 – 22:00	Sul	09:00 – 22:00
Llun	08:00 – 20:00														
Mawrth	08:00 – 20:00														
Mercher	08:00 – 20:00														
Iau	08:00 – 20:00														
Gwener	08:00 – 20:00														
Sadwrn	09:00 – 22:00														
Sul	09:00 – 22:00														
Pellter	10 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir gwastad.														
Cynhyrchion a Gwasanaethau	Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.														
Hygyrchedd a gwaith hygyrchedd	<p>Mynediad a chyfleusterau Mae'r mynediad yn wastad gyda drws llydan wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd yna ddolen glyw a lle i gadair olwyn.</p> <p>Parcio Mae parcio talu ac arddangos ar gampws y Brifysgol.</p>														
Y Siop	Siop Gyfleustra														
Dyddiad yr Adleoliad	am 13:00 ddydd Llun 4 Medi 2017														

Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost® Coleg y Brifysgol

Bydd ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03457 223344 yn falch eich helpu ag unrhyw ymholiadau am argaeledd cynnyrch neu roi manylion i chi am werth uchaf trafodion. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk

	Y gangen newydd
Post	
Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth	✓
Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig)	✓
Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post	✓
Signed For	✓
Special Delivery	✓
Dychweliadau siopa o gartref	✓
Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr	✓
Parseli Express a chontract	✓
Post Lluoedd Prydain (BFPO)	✓
Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Signed For ac Airsure)	✓
Parseli Rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg	✓
Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol	✓
Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol)	✓
Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol	✓
Local Collect	✓
Drop & Go	✓
Codi arian, adneuo a thaliadau	
Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post	✓
Bancio personol a busnes: codi arian, adneuo, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (wrth ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw)	✓
Archebion Post	✓
Moneygram	✓
Rhoi newid	✓
Talu Biliau	
Talu biliau (cerdyn, â chod bar neu â llaw)	✓
Adlenwi allweddi	✓
Transcash (heb god bar)	✓
Trwyddedau	
Trwyddedau pysgota â gwialen	✓
Teithio	
Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw	✓
Arian Teithio ar gais	Ewros/Doleri
Atgyfeirio yswiriant teithio	✓
Talu â siec	
Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau	✓
Talu â siec	
Mae cynhyrchion eraill ar gael yn Swyddfa Bost Sgeti, 84 Heol Gŵyr, Sgeti, Abertawe, SA2 9BZ	Oriau agor: Llun-Gwen 08:30-18:00 Sad 08:30-13:00